

Adnabod Duw yn well

“Yn nydd fy nghyfyngder ceisiais yr Arglwydd.” (adn. 2)

Beth am ddarllen Salm 77:1–20 ac yna myfyrio

Rhaid treulio diwrnod arall yn myfyrio ar arwyddocâd galarnadu. Cynhwysir y salmau sy'n alarnadau yn yr Ysgrythur am y rheswm ein bod angen gweld pwysigrwydd bod yn onest ac yn real ynglŷn â'n hemosiynau. Pan ddaw colled i'n rhan, neu siomiant yn cymylu'n byd, rhaid inni fod yn barod i wynebu'r boen ac i'w deimlo. Dydy hi ddim yn hawdd, fel dywedodd un Cristion wrthyf yn ddiweddar, i ddygymod â rhyw drasiedi bersonol pan ydych chi newydd ddarllen geiriau fel y rhain: “Er i fil syrthio wrth dy ochr, a deng mil ar dy ddeheulaw, eto ni chyffyrddir â thi.” (Salm 91:7). Mae ein hymdrech yn fawr ar adegau felly, ac mae galarnadu yn rhan o'r ymdrech honno.

Mae gan alarnadu'r gallu ynddo i newid ein hagweddu am ei fod yn ein hargyhoeddi bod yn rhaid noethi'r galon o bopeth balch ac yn ein gorfodi i ymgodymu efo Duw. O'r ymgodymu hwnnw fe ddaw ymwybyddiaeth newydd o Dduw a synnwyr newydd o'i bresenoldeb. Does dim gwarant y caiff ein cwestiynau eu hateb, ond byddwn yn ei adnabod *ef* yn well.

Mae hi'n benbleth i lawer sy'n astudio'r salmau pam fod, fel yn y salm o'n blaenau heddiw, yr un sy'n ei chanu yn gallu bod mor wyllt yn erbyn Duw un funud, ac yna'r funud nesaf ddatgan ei ddaioni tuag ato. Dyma'n syml ydy profiad yr enaid yn codi trwy ddrwschwch, hyd yn oed ddieter, i gydnabod wedi'r cyfan bod Duw yn gwybod beth mae o'n ei wneud ac mai Duw daionus ydy o. Ar ben hynny, mae'r ymdrechion yr awn ni drwyddyn nhw er mwyn cyrraedd y canlyniad hwnnw, ynddyn nhw eu hunain yn brofiadau sy'n nerthu. Disgrifiwyd galarnadu fel gwneud y gorau o'n colledion a'n siomiant heb fynd i ymdrybaeddu ynddyn nhw. Cyfaddefwn beth rydym yn ei deimlo, ymdrechwn gydag ef, yna symud ymlaen i gydnabod mawredd a daioni Duw. Mae galarnadu yn ffordd bwysig o gymryd rhan yn stori Duw.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Sam. 1:17–27;

2 Tim. 4:9–18

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sy'n greadigol am alarnad Dafydd?
2. Pa ddaioni a ddaeth o amryd siomiadau Paul?

Gweddi

O Dad, rwy'n gweld bod yn rhaid imi ddelio'n onest gyda materion fy enaid os wyf am gymryd rhan yn dy stori di. Mae galarnadu yn bwnc difrifol ond yr un mor angenrheidiol â dim arall. Helpa fi wrth imi geisio ei ddeall yn fwy trylwyr. Amen.